Cyngor Tref

PWLLHELI

COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR TREF A GYNHALIWYD AM 6.30y.h. NOS IAU 20 CHWEFROR 2014, YN SIAMBR Y CYNGOR, PWLLHELI.

Cof;-2502/14 Presennol,

.....

Y Maer, Cyng. Parch Ioan Gruffydd.

Cyng. Mici Plwm, Eric Wyn Roberts,Henry Williams,Dewi O Jones,Alan Williams, Myrddin Owen

Cof;-2602/14 Ymddiheuriadau.

.....

Dirprwy Faer, Cyng. M Sol Owen

Cyng. M Parry,Elfed Gruffydd,Jonathan Roberts,Eurig Evans,J G Owen, Iwan Edgar .E J Hughes.

Cof;- 2702/14 Ceisiadau Cynllunio.

.....

a) Cais C14/0096/45/HY.

Cyfnewid arwydd "totem" presennol a goleuo o dan y canopi presennol.

Modurdy Pulrose Ffordd yr Ala.

PENDERFYNIAD;- Argymell Caniatáu.

b) Cais C14/0089/45/LL

Newid defnydd fflat i Swyddfa ar y llawr cyntaf, adnewyddu fflat ac addasiadau i gefn yr eiddo yn cynnwys adeiladu porth car ar y llawr daear a deciau dur ar y llawr cyntaf ac ail.

37 Ffordd Caerdydd.

PENDERFYNIAD;- Argymell Caniatáu ond ar yr un pryd;-

1. Datgan peth pryder y gall y deciau dur gael effaith ar fwynderau y trigolion cyfagos,bydd y deciau yn edrych tros sawl eiddo yn yr ardal.
2. Lle mae staff y Swyddfa a chwsmeriaid yn mynd i gael lle parcio gan fod parcio eisoes yn broblem yn yr ardal yma.

Cof;- 2802/14 Siambr y Cyngor.

.....

Bu i'r Clerc adrodd fod llechen wedi llithro oddi ar y to yn ystod y storm a bod dŵr yn dod i mewn i'r adeilad wrth ben y ffenestr sydd yn wynebu stryd Penlan a chan bod hwn yn fater brys ei fod wedi llogi contractwr i wneud y gwaith trwsio a chynnal.

PENDERFYNIAD;- Derbyn yr wybodaeth a chefnogi'r hyn oedd y Clerc wedi ei wneud.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.15 y.h..